**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Charles Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Gweno Glyn, Gareth Wyn Griffith, Alwyn Gruffydd, Eric M. Jones, Elfed Williams, Hefin Williams a John Wyn Williams.

**Swyddogion:** Garem Jackson (Swyddog Addysg Ardal), Bethan Eleri Roberts (Swyddog Rheoli Perfformiad), Debbie Anne Jones, Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg ac Ann Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Owain Williams, Craig ab Iago a Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet - y Gymraeg).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - DRAFFT**

Diolchodd y Swyddog Addysg Ardal am y cyfle i drafod ymhellach y drafft o'r Cynllun yn ystod y cyfnod ymgynghori. Eglurwyd bod y Pennaeth Addysg wedi gweithio'n agos gyda'r swyddogion i baratoi'r drafft o'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Cyflwynwyd yr adroddiad a gofynnwyd am sylwadau'r aelodau ar y Cynllun drafft.

Derbyniwyd sylw gan aelod nad oedd y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn ddigon ymestynnol o ran dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a bod y Polisi Addysg dwyieithog yn gwaethygu'r sefyllfa drwy ddysgu un ai yn y Saesneg neu yn ddwyieithog.

Adroddwyd bod Swyddogion yr Adran Addysg yn gweithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol i gyflawni Astudiaeth a fydd yn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar faterion lleol. Disgwylir adroddiad yr Astudiaeth a fydd yn cynnwys casgliadau ac argymhellion ym mis Ionawr 2017.

Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan yr aelodau ar y Nod ac Amcanion a'r saith Deilliant:-

<u>Nod ac Amcanion</u>

Cryfhau'r trydydd pwynt bwled i ddarllen: "Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ....."

<u>Deilliant 1 – Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</u>

- Angen cryfhau'r trydydd pwynt bwled i sicrhau cyfundrefn sy'n rhoi sylfaen gadarn yn y Gymraeg cyn cyflwyno Saesneg.
- Nodwyd bwriad y cyfarfod oedd i drafod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Er hynny, awgrymwyd bod angen cryfhau brawddeg y Polisi Iaith presennol: "nod cyffredinol y Polisi Iaith yw dwyieithrwydd gan osod sylfaeni a thargedau cadarn".
- Angen targedau mwy heriol os am gyrraedd targed y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

- Angen gwersi Cymraeg fel pwnc drwy'r blynyddoedd i gael continwwm iaith.
- Cynnwys yr angen i gynnal astudiaeth ardrawiad iaith cyn cychwyn ad-drefnu ysgolion.
- Angen i ganiatáu plant o bob oedran i fynychu Canolfannau Iaith yn ôl yr angen, nid plant Blwyddyn 2 a hŷn yn unig.

Deilliant 2 – Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

- Angen targedau mwy heriol ac angen sicrhau cysondeb yn y defnydd o'r diffiniad 'ail-iaith' wrth fesur perfformiad yn erbyn y targedau.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau ynglŷn â'r targedau eglurwyd bod gan yr Adran Addysg ffigyrau a thargedau lleol ond bod templed y Llywodraeth yn mynnu targed cyfansawdd ar gyfer y sir.

Deilliant 3 – Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg
a
Deilliant 4 – Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod ynglŷn â chyrsiau galwedigaethol cydweithredol ôl 16 a ddarperir gan Goleg Menai ar gyfer ysgolion ardal Arfon yn unig, eglurwyd bod y Cynllun yn adrodd ar ysgolion yn hytrach na disgyblion. Nodwyd bod sefyllfa Coleg Meirion Dwyfor yn wahanol.

Deilliant 5 – Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

*Disgyblion Y Cyfnod sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Lefel 2+/Deilliant 5+)*

Mewn ymateb i sylw gan aelod ynglŷn â chysondeb asesiadau athro o ysgol i ysgol adroddwyd bod GwE yn edrych yn benodol ar y maes o gymedroli a chysoni.

Adroddwyd ar enghraifft o lwyddiant y Siarter Iaith ers ei sefydlu drwy fod mwy o blant yn dewis Ysgol Uwchradd a ganfyddir yn Ysgol Uwchradd Gymreig ym Mangor. Adroddwyd y byddir yn rhoi strategaeth newydd ar waith yn y Sector Uwchradd yn 2017 a bod trafodaethau wedi cychwyn gyda'r penaethiaid i osod targed gwaelodlin.

Deilliant 6 - Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg.

- Angen sicrhau ethos Gymraeg yn y ddarpariaeth ac yn benodol cerddoriaeth.

Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

- Mynegwyd pryder aelod am safon sillafu athrawon. Mewn ymateb adroddwyd yr adnabuwyd yr angen i barhau i ddatblygu cyfathrebu gyda Phrifysgol Bangor ar sawl mater i geisio dylanwadu a rhoi sylwadau ac y byddir yn dilyn y mater sillafu i fyny.

- Angen sicrhau bod pob deiliad swyddi yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i gefnogi'r datganiad bod addysg Gymraeg yn arwain at gyflog lefel uwch a gwella siawns yr ifanc.

Y Templed Adrodd

Mewn ymateb i sylw aelod ar y templed adrodd newydd, adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar y broses o ymgynghori ar effeithiolrwydd y templed. Nodwyd bod gweledigaeth Gwynedd yn ehangach a chryfach a'i bod yn bosib cyrraedd targed 2050 drwy greu cymunedau Cymraeg a thempled mwy perthnasol i sicrhau hynny.

Y camau nesaf

Adroddwyd y byddir yn
- cyflwyno sylwadau'r aelodau i'r Pennaeth Addysg
- 20 Rhagfyr 2016 - cyflwyno'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 i'r Llywodraeth.
- Derbyn Cynllun drafft yn ôl gan Lywodraeth Cymru.
- Mis Ebrill - Awdurdodau lleol i ddechrau gweithredu'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Atgoffwyd yr aelodau bod y ddogfen gyhoeddus wedi ei lansio i ymgynghoriad statudol ar 24 Hydref am gyfnod o 8 wythnos a bod modd i'r aelodau ymateb fel unigolion pe dymunir. Adroddwyd nad oes amser i gyflwyno'r adroddiad eto a rhoi sylwadau pellach yn dilyn dyddiad cau'r ymgynghoriad.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau.

**PENDERFYNWYD derbyn y sylwadau am ystyriaeth ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.55 y.b.